## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**7 Mawrth 2025**

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ('Rheoliadau 2020') a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 ('Rheoliadau Diwygio 2024').

1.2 Gosodwyd Rheoliadau Diwygio 2024 gerbron y Senedd ar 22 Tachwedd 2024, gan ddiwygio Rheoliadau 2020 i:

- ddiweddaru ac egluro telerau gwasanaeth contractwyr fferylliaeth gymunedol sy'n darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru.
- ehangu'r rheoliadau presennol ar gyfer gweinyddu, cyflenwi a darparu meddyginiaethau a chyfarpar gan fferyllwyr cymunedol i gynnwys archebion wedi'u llofnodi a ddyroddir gan optometryddion sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru fel rhan o Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) a gyflwynwyd yn 2023.
- cyflwyno rheoliadau i ganiatáu i fferyllfeydd a meddygon fferyllol y GIG yng Nghymru weinyddu cyffuriau yn eu pecynnau gwreiddiol o 1 Ionawr 2025 ymlaen.

1.3 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 yn mynd i'r afael â gwallau teipograffyddol ac yn egluro mân bwyntiau.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Nododd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad[1] ar Reoliadau Diwygio 2024 bwyntiau technegol o dan Reol Sefydlog 21.2.

2.2 Yn Ymateb y Llywodraeth[2], nodwyd y byddai rheoliadau diwygio pellach yn cael eu cyflwyno i gywiro'r materion a godwyd mewn perthynas â phwyntiau technegol 1, 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 13 a 14. Mae'r pwyntiau technegol sy'n weddill yn cael sylw yn Ymateb y Llywodraeth.

2.3 Mewn perthynas â phwynt technegol 1 yr adroddiad, cafodd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2024 eu gwneud a'u gosod ar 10 Rhagfyr 2024, gan gywiro rheoliad 1(3) a galluogi'r darpariaethau perthnasol i ddod i rym ar 1 Ionawr 2025.

2.4 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 yn mynd i'r afael â materion sy'n

---

[1] SL(6)551 Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024

[2] Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024

ymwneud â phwyntiau technegol 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 13 a 14 fel y nodir yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac yn Ymateb y Llywodraeth.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 yn diwygio Rheoliadau 2020 sy'n llywodraethu'r modd y darperir gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o dan Ran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

3.2 Mae diwygiadau cywiro wedi'u gwneud i Reoliadau 2020 neu Reoliadau Diwygio 2024 yn dibynnu ar y math o ddiwygiad sydd ei angen.

3.3 Bydd y diwygiadau i Reoliadau Diwygio 2024, sydd wedi'u cynnwys yn rheoliad 3 o Reoliadau 2025, yn dod i rym ar 31 Mawrth 2025 (h.y. cyn i'r darpariaethau hynny ddod i rym at ddibenion prif Reoliadau 2020) tra bydd y diwygiadau uniongyrchol a wneir i Reoliadau 2020, sydd wedi'u cynnwys yn rheoliad 2, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025.

3.4 Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Gwneir y Rheoliadau hyn mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024, a nododd wallau a bod angen egluro mân bwyntiau yn y Rheoliadau hynny.

4.2 Ni chynigir unrhyw newidiadau polisi yn y Rheoliadau hyn.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

5.2 Ni chafwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol yn unig nad ydynt yn newid trefniadau polisi presennol na'r ymgynghoriad blaenorol a gynhaliwyd ar y newidiadau polisi arfaethedig.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Ni chynhyrchwyd unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hyn gan fod y diwygiadau yn dechnegol ac ni fyddant yn cael unrhyw effaith fawr ar bolisi. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.